# CANOLFAN ASTUDIAETHAU ARTHURAIDD, PRIFYSGOL BANGOR

Croeso i gylchlythyr cyntaf y Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Ganolfan, a lansiwyd yn 2017, yn gweithredu fel canolbwynt cyfnewid ymchwil ryngwladol mewn Astudiaethau Arthuraidd, a'i nod yw tynnu ynghyd arbenigedd ar draws rhychwant cronolegol y chwedlau Arthuraidd, o'r oesoedd canol i'r cyfnod modern.

Mae'r Ganolfan yn dathlu mwy na chanrif o weithgaredd ysgolheigaidd ym maes Astudiaethau Arthuraidd ym Mhrifysgol Bangor, a'i nod yw meithrin awyrgylch lawn ysbrydoliaeth i ysgolheigion y presennol (a'r dyfodol) i gyflawni eu gwaith mewn Astudiaethau Arthuraidd.

Mae'n bleser gennym roi newyddion am ddigwyddiadau cyfredol, a rhai i ddod, a gynhelir gan aelodau o'r Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd, a rhannu ein gobaith y bydd y Ganolfan yn hwyluso trafod parhaus rhwng aelodau o'r gymuned Arthuraidd ryngwladol.

Mai 2018



Mae dechreuadau'r casgliadau Arthuraidd ac Astudiaethau Celtaidd i'w cael yn y cyfnod pan sefydlwyd Llyfrgell y Brifysgol yn 1884. Mae'r traddodiad parhaus o Astudiaethau Arthuraidd ym Mhrifysgol Bangor – a gryfhawyd drwy roddion personol, llyfrau ac eitemau a geisiwyd gan arbenigwyr yn y maes, a'r Cadeiriau Personol a ddyfarnwyd i ysgolheigion Arthuraidd megis yr Athro (Emeritws) P.J.C. Field, yr Athro Peredur Lynch, yr Athro Jerry Hunter a'r Athro Raluca Radulescu – wedi gweld y casgliad yn tyfu'n o'r llyfrgelloedd Arthuraidd mwyaf yn y Deyrnas Unedig.

Yn 2014 derbyniodd Llyfrgell Prifysgol Bangor gasgliad pwysig o lyfrau Arthuraidd o Lyfrgelloedd Sir y Fflint. Mae casgliad Arthuraidd Harries Sir y Fflint yn cynnwys dros 2,500 o gyfrolau. Llyfrau Saesneg yn bennaf – er nad yn gyfan gwbl – yw'r rhain, yn perthyn i'r cyfnod wedi'r oesoedd canol. Mae'r casgliad hwn yn cyfoethogi casgliad Bangor drwy ychwanegu dwsinau o gyfrolau prin, ac mae o ddiddordeb sylweddol i ysgolheigion a darllenwyr cyffredinol fel ei gilydd.

Mae casgliadau Arthuraidd Prifysgol Bangor/Harries Sir y Fflint wedi eu catalogio'n llawn erbyn hyn, a gellir mynd atynt drwy gatalog ar-lein Llyfrgell y Brifysgol. Mae'r trysorau a geir yn y Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd yn cynnwys y canlynol, ond ceir llawer mwy na hynny hefyd:

T.W. Rolleston, *Parsifal*, 1912

Sir Thomas Malory, *Le Morte Darthur*, ed. William Stansby, 1634

John Dryden, *King Arthur*, 1691

Gildas, *de excidio & conquest Britanniae*, ed. Ioannes Daius, 1568

Tennyson, *Vivien*. Illus. Gustave Dore, 1867

Malory, *Le Morte Darthur*, illus. Aubrey Beardsley, 1893-94

*Prophetia Anglicana & Romana, hoc est Merlini Ambrosii Britanni*, ed. Joannis Jacobi Porssii, 1608

*The Dore Gift Book of Illustrations to Tennyson's Idylls of the King*, 1878

Yn ddiweddar lansiwyd blog i gofnodi profiad staff Prifysgol Bangor, myfyrwyr ac ysgolheigion sy'n ymweld â'r Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd, ac i hyrwyddo ymchwil gyfredol a gefnogir gan y Ganolfan. Yn ystod wythnos o ymweliad â'r Ganolfan (fel enillydd cystadleuaeth a gyllidwyd ar y cyd gan broject 'Llyfr Academaidd y Dyfodol' UCL/Y Llyfrgell Brydeinig/AHRC a Changen Prydain o'r Gymdeithas Arthuraidd Ryngwladol), darganfu'r ysgolhaig ar ymweliad, Dr Anastasija Ropa (Prifysgol Latfia), ei bod 'wedi ei chael ei hun yn gaeth mewn tŵr hudolus', ac yno darganfu gerdd bur anadnabyddus, *Parsifal or the Legend of the Holy Grail*, o waith T.W. Rolleston, a gyhoeddwyd yn 1912. Ffrwyth ei hymchwil i'r llyfr prin hwn oedd erthygl yn rhifyn 2017 o'r *Journal of the International Arthurian Society*. Yn ystod eu hymweliad â'r Ganolfan, gwnaed darganfyddiad cyffrous gan Dr Samantha Rayner (UCL) a Dr Rebecca Lyons (Bryste): sef fersiwn brin o argraffiad 1893-94 o'r *Morte Darthur* gyda darluniau gan Aubrey Beardsley. Mae'r llyfr yn awr yn cael ei adfer gan archifyddion y Brifysgol. Mae llawer o ymwelwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn dod i weld y casgliadau a'u defnyddio, a gobeithir y bydd mwy o fyfyrwyr ac ysgolheigion ar ymweliad yn rhannu eu profiadau o'r Ganolfan – yn ogystal â'u hymchwil – er mwyn annog trafodaeth bellach.






## Arddangosfa Ar-lein:

## **'Malory a'i Ddilynwyr**

Mae 'Malory a'i ddilynwyr yng nghasgliadau Arthuraidd Prifysgol Bangor a chasgliad preifat Alan Lupack a Barbara Tepa Lupack, Rochester, Unol Daleithiau America' yn arddangosfa ar-lein o ddetholiad o lyfrau prin a gwaith celf. Mae'n olrhain taith y chwedlau Arthuraidd trwy gyfrwng llyfrau (gan fwyaf) a ysbrydolwyd gan awdur mwyaf adnabyddus y rhamant Arthuraidd Saesneg ganoloesol, sef Syr Thomas Malory. Gwelir yma enghreifftiau o weithiau diddorol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.

Nod yr arddangosfa yw rhoi amlygrwydd i le casgliadau Arthuraidd Prifysgol Bangor yn y byd ysgolheigaidd ehangach, a thynnu ynghyd ysgolheigion o Fangor, cyn-fyfyrwyr Bangor ac ysgolheigion rhyngwladol. Mae'n fan cychwyn delfrydol i archwilio'r chwedlau Arthuraidd – ymestynnir drwyddi wahoddiad i ymweld â'r Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd ac i barhau â'r ymchwil i'r maes hwn sydd o ddiddordeb parhaus.

Mae'r arddangosfa'n parhau, a gwelir detholiad o weithiau wedi'u digido o gasgliadau Bangor a Lupack ar wefan y Ganolfan.

## Cyllid i'r Project 'Yr Ymchwil Arthuraidd'

Mae project cydweithredol newydd 'Yr Ymchwil Arthuraidd' wedi derbyn cyllid o Gronfa Cyflymu Effaith ESRC Prifysgol Bangor. Bydd y prif ymchwilydd, yr Athro Raluca Radulescu, yn gweithio gyda Gillian Brownson, ymarferwr creadigol lleol, a Kate Stuart, myfyriwr MPhil yn Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau (Prifysgol Bangor), ar raglen y bwriedir iddi ennyn diddordeb a gwella lefelau llythrennedd ymysg disgyblion ysgol uwchradd yr ardal leol.





THE MOST ANCIENT AND FAMOVS HISTORY OF THE RENOWNED PRINCE ARTHVR King of Britaine,

The ſecond Part.

VVherein is declared his Life and Death, with all his glorious Battailes againſt the Saxons, Saracens and Pagans, which (for the honour of his Country) he moſt worthily atcheiued.

As alſo, all the Noble Acts, and Heroicke Deeds of his Valiant KNIGHTS of the ROVND TABLE.

Newly refined, and publiſhed for the delight, and profit of the READER.

LONDON,
Printed by William Stansby, for Iacob Bloome, 1634.

Mae aelodau'r Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd wedi bod yn ymwneud â nifer o weithgareddau a fwriedir i godi ymwybyddiaeth ymysg trigolion lleol a phlant ysgol o bwysigrwydd y chwedlau Arthuraidd i gynulleidfa genedlaethol (Cymru; Deyrnas Unedig) a rhyngwladol. Ymlith y rhain roedd 'Diwrnod Hwyl y Brenin Arthur' i blant lleol, a chyfres o weithdai ar themâu Arthuraidd yng nghastell Caernarfon: daeth dros 500 o blant ysgol i'r rhain. Yn 2015, lansiwyd arddangosfa gyhoeddus yn dathlu Astudiaethau Arthuraidd yn y brifysgol â darlith gyhoeddus gan Dr Roger Simpson, 'Arthur: The King that Never Left Us'. Agorwyd y Ganolfan yn swyddogol ar 20 Ionawr 2017 gan yr Athro Raluca Radulescu gyda darlith gyhoeddus boblogaidd, 'Portable Arthur: why medieval legends are still relevant to us.' (Mae recordiadau o'r darlithoedd a draddodwyd gan Dr Simpson a'r Athro Radulescu i'w cael ar wefan y Ganolfan.)





Mae deunydd a dderbyniodd y Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd yn ddiweddar yn cynnwys casgliad o chwe phlât a gynlluniwyd gan Royal Worcester, sy'n cynnwys golygfeydd o'r Chwedl Arthuraidd. Fe'u rhoddwyd yn garedig gan Mrs Rawlinson (*née* Johnston), a gyfrannodd hefyd nifer o ddogfennau (toriadau o'r wasg, ffotograffau, etc.) yn ymwneud â chyngres gyntaf y Gymdeithas Arthuraidd Ryngwladol a gynhaliwyd yn Truro yn 1930.

Mae'r Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd yn awr yn gweithredu fel cadwrfa i Gangen Prydain y Gymdeithas Arthuraidd Ryngwladol. Yn ddiweddar mae'r Ganolfan wedi derbyn dros 30 bocs o ddogfennau, ac mae staff llyfrgell y brifysgol wrthi'n trefnu a chatalogio'r archif fel y bydd ar gael i fyfyrwyr ac ysgolheigion ar ymweliad. (Rhagor o wybodaeth i ddilyn yn fuan.)



Gofynnir i unrhyw un a hoffai gyfrannu i'r Ganolfan, neu a hoffai weld y casgliad, gysylltu â'r Athro Raluca Radulescu yn y lle cyntaf: r.radulescu@bangor.ac.uk

## Symposiwm i ddod:

## **‘Chwedlau Arthur yng Nghymru a Thu Hwnt’**

Mae ‘Chwedlau Arthur yng Nghymru a Thu Hwnt’ yn symposiwm undydd a gynhelir ym Mhrifysgol Bangor ac a drefnir gan Sefydliad Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar drwy’r Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd. Fe’i cynhelir ar 28 Mehefin, 2018 (9am–5pm, yn Ystafell Cledwyn 3).

Bydd yn gyfle i roi amlygrwydd i arbenigedd aelodau o’r Sefydliad Ymchwil Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar, ac yn arbennig aelodau a chyfranwyr Canolfan Astudiaethau Arthuraidd Prifysgol Bangor, sy’n rhan o’r Sefydliad.

Bydd y symposiwm yn cynnwys tri phrif banel yn canolbwyntio ar y canlynol: Arthur yng Nghymru (canoloesol), teithiau Arthur o Gymru i’r Cyfandir (canoloesol), ac Arthur o Gymru i’r byd (canoloesol i fodern).

Mae cwrs **MA Prifysgol Bangor mewn Llenyddiaeth Arthuraidd** (nad oes ei debyg yn y byd) yn gwrs academaidd cyffrous a llwyddiannus sy’n manteisio ar arbenigedd arbenigwyr o safon ryngwladol ym maes Astudiaethau Arthuraidd. Caiff myfyrwyr ymdrin â’r canon enfawr o lenyddiaeth Arthuraidd, o’r oesoedd canol i’r cyfnod modern, a chymryd rhan yng ngweithgareddau’r Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd. Mae hyn yn cynnwys cyfle i gyd-drefnu’r gynhadledd ryngwladol flynyddol i ôl-raddedigion, ‘Medievalism Transformed’. Dylid cyfeirio pob ymholiad am y cwrs MA at yr Athro Raluca Radulescu.

Cyfarwyddwr

Yr Athro Raluca Radulescu
Ysgol Llenyddiaeth Saesneg
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor, Gwyndedd,
LL57 2DG
r.radulescu@bangor.ac.uk

Dirprwy Gyfarwyddwr

Dr Aled Llion Jones
Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor, Gwynedd,
LL57 2DG
aled.llion@bangor.ac.uk

Cydlynydd Casgliadau Arbennig

Shan Robinson
s.a.robinson@bangor.ac.uk

Dilynwch y Ganolfan ar Twitter @ArthurBangor

Gweler ein gwefan am fanylion pellach am y Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd, gan gynnwys gwybodaeth am yr holl brojectau cyfredol, 'Malory a'i Ddilynwyr' ac 'Arthur ym Mangor a Chymru', mynediad at y testunau wedi'u digido a geir yn y Ganolfan, ac i ddarllen cofnodion newydd (ac sydd i ddod) yn y blog: **http:arthur.bangor.ac.uk**

I gael gwybodaeth am y Gymdeithas Arthuraidd Ryngwladol ac am Gyfnodolyn/ Llyfryddiaeth y Gymdeithas, gweler: **http://www.internationalarthuriansociety.com**

Dylid cyfeirio pob ymholiad ynghylch mynediad i'r Ganolfan, neu unrhyw fater cysylltiedig, at yr Athro Raluca Radulescu neu Dr Aled Llion Jones.